# Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

**2017 dccc 1**

## RHAN 3

CYFRIFO TRETH A RHYDDHADAU

*Cyfrifo treth*

### 27 Swm y dreth sydd i'w godi: trafodiadau nad ydynt yn gysylltiol

(1) Mae swm y dreth sydd i'w godi mewn cysylltiad â thrafodiad trethadwy nad yw'n un o nifer o drafodiadau cysylltiol (gweler adran 28 ynglŷn â hynny) i'w gyfrifo fel a ganlyn.

*Cam 1*

Ar gyfer pob band treth sy'n gymwys i'r trafodiad, lluosi hynny o'r gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer y trafodiad sydd o fewn y band â'r gyfradd dreth ganrannol ar gyfer y band hwnnw.

*Cam 2*

Cyfrifo cyfanswm y symiau sy'n deillio o Gam 1.

Y canlyniad yw swm y dreth sydd i'w godi.

(2) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys at ddibenion cyfrifo unrhyw swm o dreth sydd i'w godi mewn cysylltiad â rhent pan fo'r holl gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trafodiad trethadwy neu ran ohoni ar ffurf rhent; gweler yn lle hynny—

(a) yn achos trafodiad eiddo preswyl, baragraff 27 o Atodlen 6 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y paragraff hwnnw sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â'r dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â rhent yn achos lesoedd preswyl;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 27. (See end of Document for details)*

(b) yn achos trafodiad eiddo amhreswyl, baragraff 29 o'r Atodlen honno sy'n darparu ar gyfer cyfrifo'r dreth sydd i'w chodi mewn cysylltiad â rhent yn achos lesoedd amhreswyl a lesoedd cymysg.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 81(2)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/34, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, Adran 27.